JONES, MICHAEL (bu farw 1649), milwr

Enw: Michael Jones
Dyddiad marw: 1649
Rhiant: Mabel (née Ussher)
Rhiant: Lewis Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: milwr
Maes gweithgaredd: Milwrol
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Ganwyd yn Iwerddon eithr yr oedd o dras Cymreig - yn disgyn, yn y chweched genhedlaeth, o Gruffydd Derwas, arglwydd Nannau a chyndad teulu Nanney ac, ar yr ochr fenywol, John Jones y brenin-leiddiad. Aeth ei dad, LEWIS JONES (mab John Wynn ap John), o Sir Feirionnydd i Goleg y Trwyn Pres, Rhydychen, c. 1562, gan fynd yn syth ar ôl cymryd gradd B.A. i gymrodoriaeth yng Ngholeg All Souls a dyfod yn ddeon Ardagh (swydd Longford, Iwerddon), 1606-25, yn ddeon Cashel (lle yr atgyweiriodd yr eglwys gadeiriol), 1607, yn ganon Ely, 1629-38, ac (ar waethaf y ffaith nad oedd Laud yn hoffi ei Biwritaniaeth) yn esgob Killaloe o 1633 hyd ei farw ar 2 Tachwedd 1646, yn 104 oed fel y tybid. Ymunodd dau frawd ag ef yn Iwerddon : HENRY JONES, mab yr hwn, y barnwr OLIVER JONES (bu farw 1682), oedd taid Ann Jones, mam Oliver Goldsmith, a BRYAN JONES (bu farw 1671), aelod o Senedd Iwerddon a sefydlydd teulu Gwyddelig Jones o Headfort, sydd yn parhau i fod yn bwysig yn Iwerddon.

Mab iau i'r esgob oedd Michael Jones ac fe'i ganed, yn ôl pob tebyg, yn Ardagh. Dychwelodd i Iwerddon o Lincoln's Inn (lle y'i derbyniasid 12 Ionawr 1631) i ymuno â'r fyddin a godwyd i wrthsefyll y gwrthryfel Gwyddelig (1641). Eithr gan nad yn cydweld â'r cymod a wnaethpwyd yn 1643, ymunodd â byddin y Senedd yn Lloegr, i ymladd yn erbyn awdur y cymod, y brenin Siarl I. Bu'n gweithredu fel cyrnol llu gŵr meirch ar y Goror (gan mwyaf) ac yng ngwarchae Caer; bu'n helpu i drefnu'r telerau ynglŷn â chymryd Caer drosodd (1 Chwefror 1646) - ar ôl ymuno â Syr Thomas Mytton i orchfygu, yn Ninbych (1 Tachwedd 1645) a Holt Bridge (Rhagfyr 1645), y llu a oedd yn ceisio atgyfnerthu'r fyddin a oedd yn dal Caer, a daeth yn llywiawdr y dref (6 Chwefror) a dal y swydd honno hyd 30 Mehefin pryd y cymeradwywyd ef i'r Senedd yn brif gadfridog y lluoedd yn Iwerddon, ac anfonwyd ef yno yn ' major general ' i adnewyddu'r ymladd. Cafodd fuddugoliaeth nodedig yn Dungan Hill, Antrim (8 Awst 1647). Gwrthododd wrando ar apêl Ormond (9 Mawrth 1649), wedi i'r brenin gael ei ladd, i ymuno ag ef a'i gynghreiraid, y ' Confederate Catholics,' er cosbi y rhai a roes y brenin i farwolaeth (9 Mawrth 1649), a gwnaeth hi'n bosibl i Cromwell lanio yn Iwerddon trwy orchfygu lluoedd Ormond yn Rathmines, gerllaw Dulyn (2 Awst 1649). Eithr bu farw o dwymyn ar 10 Rhagfyr ac fe'i cladwyd yn eglwys S. Mary, Youghal. Gadawodd ar ei ôl enw da am wroldeb personol a medr milwrol. Rhoddwyd i'w weddw stad yn Iwerddon a oedd yn werth £3,000, eithr bu helynt yn ei chylch, a chymerwyd meddiant ohoni yn 1690 gan Tyrconnel a gadael y weddw heb ddim moddion pan oedd y mab a fabwysiadwyd ganddi, MICHAEL JONES (mab Henry Jones, esgob Clougher), yn ymladd dros William III.

Daeth tri eraill o feibion Lewis Jones i enwogrwydd yn Iwerddon. Dilynodd HENRY JONES (1605 - 1682) ei dad fel deon Ardagh (1625), daeth yn esgob Clougher yn 1645, bu'n gwasnaethu Cromwell fel ' scoutmaster ' yn y cyfnod pan nad oedd yr esgobaeth mewn grym; fe'i dewiswyd, serch hynny, yn esgob Meath yn 1661. Yr oedd yn un o arloeswyr astudiaeth y Wyddeleg. Dilynodd Syr THEOPHILUS JONES (bu farw 1685) ei frawd Michael fel llywiawdr Dulyn (1649-59), yr oedd yn aelod dros ran o Iwerddon yn Senedd 1656 Cromwell, eithr cydweithredodd â Monck i ddyfod â'r Adferiad i rym, ac yn wobr cafodd ei ddewis yn ' scoutmaster general ' i Siarl II (1661). Gwnaethpwyd AMBROSE JONES (bu farw 1678) yn esgob Kildare yn 1667.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, xxx, 107, 147, 162; xxii, 86

A. W. M. Kerr, *An Ironside of Ireland the remarkable career of Lieut.-General Michael Jones* (Llundain 1923) (n.d.)

Reports of the Historical Manuscripts Commission, Portland, i, 154, 278-9, 288, 385, 414, 429, 434, 438

Original Documents and Notices of Irish Affairs in the 16th and 17th Centuries (1943) (gol. McNeill), 255-8, 265-7, 285-6

Irish Arch. and Celtic Soc., *A Contemporary History of Affairs in Ireland from 1641 to 1652* (Dublin 1879), 1641-52 (gol. J. T. Gilbert), 1880

John Roland Phillips, *Memoirs of the Civil War in Wales and the Marches, 1642â€“1649* (London 1874), ii. 197-8, 226, 282, 297

R. H. Morris, *The Siege of Chester, 1643â€“1646* (Chester 1924), 1924

Archifau LlGC: NLW MS 11440D (126)

The Records of the Honorable Society of Lincoln's Inn. Admissions, 1420â€“1893, etc., 1896; Black Books, 1422â€“1845 (1897â€“1902), i, 212

J. Strype, *The life and acts of Matthew Parker the first archbishop of Canterbury in the reign of Queen Elizabeth* (1711), I, xi

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 18653313

Wikidata: Q9032273

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Dodd, A. H., (1953). JONES, MICHAEL (bu farw 1649), milwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 5 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-MIC-1649

Copïo'r cyfeiriad

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan: Lywodraeth Cymru
Sponsored by: Welsh Government